# Cynhadledd Ieithoedd Lleiafrifol mewn Addysg Iechyd

Dydd Iau 15 Mehefin 2023
Prifysgol Caerdydd, Darlithfa Sir Stanley Thomas OBE, Canolfan Bywyd Myfyrwyr

## Cynhadledd a gyflwynir gan Ysgol Meddygaeth, Prifysgol Caerdydd. Ieithoedd Lleiafrifol mewn Addysg Iechyd: Cymru, Gwlad y Basg, Canada, Y Ffindir, Seland Newydd a Lloegr.

Er bod amlieithrwydd yn norm drwy'r byd, gyda mwy o bobl ddwyieithog ac amlieithog nag uniaith, ychydig iawn o ymchwil sydd yn bodoli o fewn y maes. Bydd y gynhadledd hon ar Ieithoedd Lleiafrifol mewn Addysg Iechyd yn gyfle i adeiladu ar seiliau cynnar addysg iechyd mewn ieithoedd lleiafrifol ar draws y byd a chlywed am sut mae eraill yn llwyddo i sicrhau fod addysg ddwyieithog yn ymarferol ac arloesol. Cawn gyfle i glywed am sut mae gwahanol wledydd yn mynd ati i gynllunio ac ymarfer cwricwlwm dwyieithog a hybu ieithoedd lleiafrifol.

Yn ogystal â rhannu ymarfer da a chreu cysylltiadau newydd gyda chyfoedion ar draws y byd, bwriad y gynhadledd hon yw rhoi platfform i ddatblygu addysg iechyd, polisi iaith a chwricwlwm mewn ieithoedd lleiafrifol. Gyda hynny, bydd y digwyddiad yn addas i weithwyr yn y maes Gofal ac Iechyd, addysgwyr ac athrawon, a rhai sydd yn gweithio ac ymddiddori mewn polisi iaith. Bydd siaradwyr yn cynnwys cyfranwyr o Gymru, gwlad y Basg, Canada, Y Ffindir, Seland Newydd a Lloegr.

Bydd y gynhadledd hon yn hybrid, felly mae mynediad i ymuno gyda rhan fwyaf o'r diwrnod yn rhithiol neu cynhelir ar Brif Gampws y Brifysgol. Bydd yn gynhadledd cyfrwng Cymraeg a Saesneg gyda chyfieithu ar y pryd i'r Saesneg ar gyfer cyflwyniadau drwy'r Gymraeg.
Byddwn yn cynnig gofod ar gyfer stondinau yn ystod y gynhadledd ar gyfer sefydliadau am gost o £100 y stondin. Dim ond hyn a hyn o leoedd sydd ar gael, felly cysylltwch â C4MECymraeg@cardiff.ac.uk i archebu stondin.

Yn ogystal â'r gynhadledd, byddwn yn cynnal Diwrnod Dathlu y prynhawn canlynol, sef Dydd Gwener 16 Mehefin. Dyma ddigwyddiad blynyddol i ddathlu carfan arall o fyfyrwyr fydd yn graddio wedi cwblhau astudio rhan o'u cwrs dan nawdd Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ein siaradwr gwadd eleni fydd yr Athro, Dr Rhys Thomas. Mae croeso i chi ymuno ar gyfer y sesiwn ond gofynnir i chi gadw lle drwy e-bostio C4MECymraeg@cardiff.ac.uk.

**#AddysgIechydFydeang**

# Cynhadledd Ieithoedd Lleiafrifol mewn Addysg Iechyd

Dydd Iau 15 Mehefin 2023
Prifysgol Caerdydd, Darlithfa Sir Stanley Thomas OBE, Canolfan Bywyd Myfyrwyr

## Bore

| Amser | Gweithgaredd | Siaradwr | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| 08:45 | Cofrestru, Coffi a lluniaeth ysgafn | | 4.01B, 4ydd Llawr, Canolfan Bywyd y Myfyrwy |
| 09:15 | Gair o groeso | **Gair o groeso gan Dr Rhian Goodfellow, Cyfarwyddwr cwricwlwm C21 yn Ysgol Meddygol Prifysgol Caerdydd.**<br><br>**Anerchiad gan Judith Chrystie, Cyfarwyddwr Cynorthwyol a Gethin Matthews-Jones, Pennaeth newydd GMC Cymru, Y Cyngor Meddygol Cyffredinol** | Darlithfa Stanley Thomas |
| 09:30 | Prif gyflwyniad | **Dr Sara Roberts, Prif siaradwr**<br>Datblygu ymarfer sy'n ieithyddol a diwylliannol briodol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol – lansio theori i hybu newid ar gyfer ieithoedd lleiafrifol swyddogol. | Darlithfa Stanley Thomas |
| 10:30 | Sesiwn ddewisol | **Clare Polack (University of Southampton) gyda myfyrwyr a chyd-hwyluswyr, David Freestone a Leonie Lingnau**<br>Cyfleoedd, Heriau a Datrysiadau - myfyrdodau o 10 mlynedd o redeg rhaglen feddygol ddwyieithog yn Southampton a Kassel, yr Almaen.<br><br>**Derith Rhisiart (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)**<br>Rôl Iaith Frodorol mewn Cyfweld Cymhellol a/neu ymyriadau gofal iechyd eraill ar gyfer Newid Ymddygiad | Darlithfa Stanley Thomas<br><br>Ystafell 1.26 a 1.27 |
| 11:15 | **Paned a Chyflwyniadau gan Fyfyrwyr C21** | | 4.01B, 4ydd Llawr, Canolfan Bywyd y Myfyrwy |
| 11:45 | Sesiwn ddewisol | **Christian Chavarro (University of Waikato)**<br>Te Wiki o Te Reo Māori yn Rygbi'r Undeb<br><br>**Aitor Montes Lasarte a Jon Zarate (Gwlad y Basg)**<br>Newid Paradigm Gwlad y Basg a Phwyntiau Allweddol ar gyfer addysg iechyd prifysgol yn Euskera: achos Prifysgol Gwlad y Basg | Ystafell 1.26 a 1.27<br><br>Darlithfa Stanley Thomas |

#AddysgIechydFydeang

# Cynhadledd Ieithoedd Lleiafrifol mewn Addysg Iechyd

Dydd Iau 15 Mehefin 2023
Prifysgol Caerdydd, Darlithfa Sir Stanley Thomas OBE, Canolfan Bywyd Myfyrwyr

## Prynhawn

| Amser | Gweithgaredd | Siaradwr | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| 12:30 | Cinio a stondinau | | 4.01B, 4ydd Llawr, Canolfan Bywyd y Myfyrwy |
| 13:30 | Sesiwn ddewisol | **Cara Meredith (Seland Newydd)**<br>Iaith a hunaniaeth: llwybrau at Iescynhenid yn y cyfnod amenedigol<br><br>**Danielle Barbeau-Rodrigue & Nicole Ranger (Northern Ontario School of Medicine University/Université de l'EMNO)**<br>Esblygiad addysg feddygol mewn Ffrangeg ym Mhrifysgol NOSM: trosolwg | Darlithfa Stanley Thomas<br><br>Ystafell 1.26 a 1.27 |
| 14:15 | Egwyl fer | | |
| 14:30 | Sgwrs Banel: Sut mae tyfu a datblygu addysg feddygol ddwyieithog? | **Cadeirydd Dr Awen Iorwerth gyda**<br>• **Lena Sjoberg (Y Ffindir)**<br>• **Derith Rhisiart (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)**<br>• **Carys Williams a Rhonwen Lewis (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)**<br>• **Jon (Gwlad y Basg)** | Darlithfa Stanley Thomas |

**Sylwch:**
Mae'r rhaglen yn cael ei chadarnhau ar hyn o bryd a gallai gael ei diwygio. Ni allwn fod yn gyfrifol am unrhyw newidiadau neu ganslo i'r rhaglen oherwydd ffactorau y tu allan i'n rheolaeth. Os bydd y gynhadledd yn cael ei gohirio neu ei chanslo, byddwn yn rhoi gwybod i chi dros e-bost gan ddefnyddio'r cyfeiriad a ddarparwyd gennych. Pe bai'n rhaid i ni ganslo / gohirio'r digwyddiad, ni fyddwn yn gallu ad-dalu ymwelwyr am deithio, gwesty a chostau cysylltiedig eraill.

**#AddysgIechydFydeang**

# Cynhadledd Ieithoedd Lleiafrifol mewn Addysg Iechyd

Dydd Iau 15 Mehefin 2023
Prifysgol Caerdydd, Darlithfa Sir Stanley Thomas OBE, Canolfan Bywyd Myfyrwyr

## Dr Sara Roberts, Prif Siaradwr (Prifysgol Bangor)



Daw Sara yn wreiddiol o Gymru a'r Gymraeg yw ei hiaith gyntaf. Hyfforddodd fel Therapydd Galwedigaethol yng Nghaerdydd yn yr 1980au a gweithiodd i ddechrau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol gyda defnyddwyr gwasanaeth ag anableddau corfforol, ac yn ddiweddarach yn Nhimau Iechyd Meddwl Cymunedol y GIG mewn sawl lleoliad ar draws Gogledd Cymru. Yn ddiweddarach yn ei gyrfa, bu Sara'n gweithio gyda phlant ag anableddau corfforol a'r sector Prifysgol, gan gychwyn yn dysgu ar raglen BSc ym Mhrifysgol Caerdydd.

Sefydlodd y rhaglen PGDip mewn Therapi Galwedigaethol newydd ym Mhrifysgol Bangor yn 2004 a hi oedd yr Arweinydd Cwrs ar gyfer y rhaglen gwbl ddwyieithog hon am 12 mlynedd. Roedd cyflwyno'r rhaglen ddwyieithog yma yn hybu myfyrwyr i ddarparu ar gyfer anghenion ieithyddol a diwylliannol defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg eu hiaith yng Nghymru. Am y 6 blynedd diwethaf mae hi wedi bod yn Arweinydd Llwybr MSc mewn Ymarfer Uwch ar gyfer Proffesiynau Perthynol i Iechyd ym Mhrifysgol Bangor.

Mae Sara wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi'r Llywodraeth ar gyfer Proffesiynau Perthynol i Iechyd yng Nghymru ac mae'n cynnal diddordeb mewn ymchwil trwy gefnogi myfyrwyr fel Arweinydd y Traethawd Hir MSc ar gyfer Ysgol y Gwyddorau Meddygol ac Iechyd ym Mhrifysgol Bangor. Mae hi'n mwynhau galluogi myfyrwyr i dyfu a datblygu gwybodaeth a sgiliau mewn ymchwil sy'n cael effaith ymarferol a chadarnhaol ar ddatblygiad a darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae gan Sara ddiddordeb hir sefydlog yn y modd y caiff iaith a diwylliant defnyddwyr gwasanaeth eu cynnwys ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, datblygodd hyn o brofiadau personol a phroffesiynol (da a drwg), ac arweiniodd hyn at ddatblygu pwnc ymchwil a ddaeth yn astudiaeth PhD a ddyfarnwyd o'r diwedd yn Haf 2020 ar ôl casglu data o Gymru a Chanada. Mae Sara'n frwd dros hybu gwelliant yn y ddarpariaeth ar gyfer dewis iaith poblogaethau ieithoedd lleiafrifol swyddogol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a thrwy ei hymchwil mae wedi datblygu theori sy'n egluro sut y gall ymarferwyr, neu rhai sydd â'r potensial i wneud, ddod yn ieithyddol a diwylliannol addas yn eu hymarfer, p'un a ydynt yn siarad yr iaith swyddogol leiafrifol, yn ddysgwyr neu ddim yn siarad yr iaith o gwbl.

Mae Sara yn briod ac yn byw yng Ngogledd Cymru ac mae ganddi 2 fab sydd rŵan yn oedolion.

**#AddysgIechydFydeang**

# Cynhadledd Ieithoedd Lleiafrifol mewn Addysg Iechyd

Dydd Iau 15 Mehefin 2023
Prifysgol Caerdydd, Darlithfa Sir Stanley Thomas OBE, Canolfan Bywyd Myfyrwyr

## Dr Clare Polack BSc. MBBS. MSc. MRCP. DTMH. FRCGP. FAoME (University of Southampton)



Fe wnaeth teithiau Clare cyn ac yn ystod ei gradd ffisioleg ym University of Edinburgh ei hysbrydoli i wneud cais am feddygaeth, yn bennaf i ddilyn ei diddordeb mewn iechyd byd-eang. Ar ôl astudio a gweithio yn Newcastle cwblhaodd hyfforddiant meddyg teulu yn Glasgow. Dechreuodd ei gyrfa fel addysgwr meddygol yn gweithio gyda gweithwyr iechyd lleol ar ynys Pemba, Tanzania.

Ar ôl blwyddyn yn Seland Newydd enillodd gymrodoriaeth dwy flynedd yn ôl yn yr Alban a ganiataodd iddi ddatblygu ei sgiliau fel addysgwr meddygol mewn lleoliadau israddedig ac ôl-raddedig trwy University of Edinburgh.

Mae hi wedi gweithio yn University of Southampton yn rhan amser ers bron i 20 mlynedd ochr yn ochr â gweithio fel meddyg teulu wrth ei gwaith. Yn 2011 gofynnwyd iddi ddatblygu ac arwain rhaglen newydd ar y cyd â darparwr gofal iechyd o’r Almaen. Ac yn 2013 dechreuodd y BM(EU).

Rhaid i fyfyrwyr ar y rhaglen hon fod yn ddwyieithog gan gwblhau dwy flynedd gyntaf eu hastudiaeth yn Southampton a'r 3 blynedd olaf yn Kassel School of Medicine, yr Almaen. Maent yn dysgu meddygaeth glinigol yn yr iaith, cyd-destun a'r diwylliant Almaeneg a chânt eu harchwilio yn Saesneg ochr yn ochr â myfyrwyr y DU.

#AddysgIechydFydeang

# Cynhadledd Ieithoedd Lleiafrifol mewn Addysg Iechyd

Dydd Iau 15 Mehefin 2023
Prifysgol Caerdydd, Darlithfa Sir Stanley Thomas OBE, Canolfan Bywyd Myfyrwyr

## Danielle Barbeau-Rodrigue (Northern Ontario School of Medicine University/ Université de l'EMNO)



Danielle Barbeau-Rodrigue yw Cyfarwyddwr NOSM University/Université de l'EMNO's (NOSM U) Francophone Affairs Unit (FrAU), a sefydlwyd i sicrhau bod ei mandad atebolrwydd cymdeithasol yn cael ei weithredu ac i gefnogi ei hymrwymiad i ddiwylliant o gynwysoldeb ac ymateb i anghenion y boblogaeth Ffrangeg ei hiaith a chymunedau gogledd Ontario.

Mae'r FrAU wedi ymrwymo i sefydlu, cefnogi a chynyddu partneriaethau cydweithredol gyda chymunedau a phartneriaid Francophone, yn ogystal â chefnogi holl ddysgwyr NOSM U yn eu dealltwriaeth o iechyd a diwylliant Ffrangeg drwy sesiynau academaidd ac anacademaidd. Danielle yw'r arweinydd gweinyddol ar gyfer y Francophone Curricular Initiative newydd a lansiwyd ym mis Medi 2022. Mae Danielle hefyd yn Gadeirydd Francophone Minority Community Network of the Association of Faculties of Medicine of Canada.

Yn enedigol o Sudbury, Ontario, Canada, mae gan Danielle Radd Meistr yn y Celfyddydau (Cymdeithaseg) a Gradd Baglor Anrhydedd mewn Gwyddor Iaith (cyfieithu a dehongli) o Laurentian University, Canada. Mae ganddi ddiddordeb arbennig yn y Cynnig Rhagweithiol a'r ddarpariaeth o ofal iechyd sy'n briodol yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol.

## Dr Nicole Ranger, B.Sc., MD CCFP (Northern Ontario School of Medicine University/Université de l'EMNO)



Mae Dr Nicole Ranger yn raddedig o NOSM University/Université de l'EMNO ac yn awr yn feddyg teulu yn Greater Sudbury yn Ontario. Mae hi'n aelod gweithgar o'r gyfadran, yn diwtor, yn Gadeirydd presennol NOSM University's Francophone Admissions Subcommittee ac yn aelod o Theme 1 curriculum committee.

Mae hi wedi bod yn aelod hir sefydlog o NOSM University's Francophone Reference Group ers 2003. Hi hefyd yw Arweinydd y Gyfadran sy'n gyfrifol am y Francophone Curricular Initiative newydd a lansiwyd yn 2022.

#AddysgIechydFydeang

# Cynhadledd Ieithoedd Lleiafrifol mewn Addysg Iechyd

Dydd Iau 15 Mehefin 2023
Prifysgol Caerdydd, Darlithfa Sir Stanley Thomas OBE, Canolfan Bywyd Myfyrwyr

## Dr. Christian Chavarro (University of Waikato)



Graddiodd Dr. Christian Chavaro-Nieto o University of Rosario fel Meddyg, cwblhaodd ei Radd Meistr mewn Meddygaeth Chwaraeon ym University of Queensland, ac yn ddiweddarach derbyniodd ei PhD mewn Iechyd, Chwaraeon a Pherfformiad Dynol yn University of Waikato. Bu Dr. Chavarro yn Postdoctoral Research Fellow yn Harvard Medical School, yn yr Department of Neurology am dros ddwy flynedd, gan weithio ar draws prosiectau ar gleifion MS a delweddau MRI.

Mae ei ymchwil yn canolbwyntio ar anafiadau chwaraeon, yn benodol ar gyfergydion, anafiadau gwddf a hamlinyn chwaraewyr Rygbi'r Undeb, ac effeithiau cryfder gwddf a chryfder llinyn y gar ar anafiadau o'r fath. Mae wedi gweithio yn ystod ei radd doethuriaeth gyda thimau elitaidd Rygbi'r Undeb yn Seland Newydd gan gynnwys timau'r All Blacks, Black Ferns, Super Rugby a thimau National Provincial Championship fel tîm Rygbi Bay of Plenty. Mae ganddo brofiad mewn Ymchwil Clinigol yn cynnal astudiaethau clinigol ar gleifion â Sglerosis Ymledol a dadansoddiad niwroddelweddu yn Brigham and Women's Hospital Boston.

#AddysgIechydFydeang

# Cynhadledd Ieithoedd Lleiafrifol mewn Addysg Iechyd

Dydd Iau 15 Mehefin 2023
Prifysgol Caerdydd, Darlithfa Sir Stanley Thomas OBE, Canolfan Bywyd Myfyrwyr

## Aitor Montes Lasarte (University of the Basque Country)




Wedi'i eni yn Basauri (Gwlad y Basg) ym 1972, aeth Aitor Montes Lasarte ymlaen i astudio meddygaeth ym University of the Basque Country (UPV/EHU) ac yna cyflawni ei arbenigedd yn Galdakao Hospital.

Ar hyn o bryd yn gweithio fel meddyg teulu yn Integrated Care Unit of Debagoiena, Osakidetza-Basque NHS, mae hefyd yn gyfarwyddwr a darlithydd cyrsiau haf o'r enw 'Health and Language' UIK Foundation (University of the Basque Country).

Mae'n Athro yng nghwrs ôl-raddedig 'Cultural and Linguistical Management in Patient Centred Health Care', University of the Basque Country (UPV/EHU) mewn partneriaeth â'r UEU.

Mae'n aelod o'r gweithgor sy'n gyfrifol am Safonau 'Access to Health and Social Services in Official Languages' Standards yr HSO (Health Standards Organization) a SSF (Société Santé en Français). Mae'n hyrwyddwr hawliau iaith cleifion ac yn aelod o Aintzat and Eusko Ikaskuntza (Basque Studies Society).

Mae Aitor Montes Lasarte yn awdur nifer o erthyglau barn yn Press ac mae hefyd yn ddringwr brwd yn ei amser hamdden.

## Jon Zarate (Gwlad y Basg)



Ganed Jon Zarate yn Lekeitio ym 1979 ac enillodd ei radd mewn fferylliaeth yn 2002. Cwblhaodd ei PhD yn ymwneud ag astudiaeth o niwroreoleiddio archwaeth ym University of Basque Country (UPV/EHU) yn 2007, dan oruchwyliaeth Dr Etxebarria (athro ffisioleg ddynol yr UPV/EHU) a Dr Salles (athro ffarmacoleg yr UPV/EHU). Mae'n Athro Cyswllt yn Adran Fferylliaeth a Gwyddorau Bwyd Cyfadran Fferylliaeth yr UPV/EHU ers 2011.

#AddysgIechydFydeang

# Cynhadledd Ieithoedd Lleiafrifol mewn Addysg Iechyd

Dydd Iau 15 Mehefin 2023
Prifysgol Caerdydd, Darlithfa Sir Stanley Thomas OBE, Canolfan Bywyd Myfyrwyr

Mae hefyd yn aelod o staff addysgu'r rhaglen ddoethuriaeth yn 'Ymchwil a Gwerthuso Cyffuriau Cymhwyso Technolegau Fferyllol i Ddatblygu Therapïau Uwch' a'r meistr mewn 'Ffermacoleg, Datblygu, Gwerthuso a Defnydd Rhesymegol o Feddyginiaethau' yr UPV/EHU. Fe yw cyfarwyddwr ei ddogfen arbenigol ôl-raddedig ei hun, sef 'Linguistic and cultural management in patient-centred healthcare' (UPV/EHU, UEU, gyda chefnogaeth UEMA).

Ar hyn o bryd mae'n cydweithio ag Aitor Montes i ymchwilio i gynnig gweithredol darpariaeth iaith ffafriol mewn gofal sylfaenol: o dystiolaeth i weithrediad ac mae'n ymchwilydd i grŵp NanoBiocel ers 2008, grŵp lefel gyntaf cyfunol Basque University System. Mae ganddo dri thesis doethuriaeth wedi'u cyfarwyddo, dau ohonyn nhw â chyfeiriadau rhyngwladol a Basgeg.

Mae'n gyd-awdur nifer bwysig o erthyglau gwyddonol a gyhoeddwyd (ORCID), 33 o erthyglau mewn cyfnodolion o fynegai JCR, dau lyfr, pedwar pennod llyfr a 12 erthygl mewn cyfnodolion gwyddoniaeth wedi'u golygu yn yr iaith Fasgeg. Mae ganddo fynegai h o 18 a 618 o ddyfyniadau ac ef oedd cyfarwyddwr y cyfnodolyn gwyddonol 'Ekaia' a olygwyd yn Euskara gan yr UPV/EHU (2010-2014) ac mae wedi cymryd rhan fel adolygydd a golygydd gwadd mewn sawl cyfnodolyn rhyngwladol mynegrifol, er enghraifft, cyfnodolyn 'Pharmaceutics'. Mae wedi cymryd rhan mewn tua 30 o brosiectau ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol ac mewn mwy nag 20 o gyngresau ymchwil.

Mae gan Jon brofiad eang mewn datblygu fectorau anfeirysol ar gyfer therapi genynnau fel y gwelir yn yr erthyglau a grybwyllwyd. Mae wedi canolbwyntio ei ymchwil yn y grŵp NanoBioCel ar ddylunio a dilysu prosesau yn seiliedig ar niosomau cationig ar gyfer cyflwyno genynnau, yn bennaf ar gyfer strategaethau therapi genynnau gyda bôn-gelloedd. Ar hyn o bryd mae'n cymryd camau cyntaf ar system microhylifol i ddatblygu nanoronynnau lipid ar gyfer therapi genynnau, a thechnegau bioargraffu 3D.

Mae wedi cydweithio â Dr Orive mewn prosiect i ddatblygu technegau sy'n dod i'r amlwg fel gweithrediad gelatin i ddynwared meinwe frodorol ar gyfer cymwysiadau peirianneg meinwe. Mae ei brofiadau wedi'u hachredu'n gadarnhaol gan asiantaethau ANECA ac UNIBASQ. Ar hyn o bryd mae hefyd yn aelod o bwyllgor gwyddonol y Labordy Ymchwil ar y Cyd 'Advanced Pharmaceutic Development' (UPV/EHU a Tecnalia Corporation). Ar ben hynny, cyrhaeddodd brofiad rheoli eang fel Is-reithor Basque Language, Plurilingualism and Lifelong Learning of the UPV/EHU yr UPV/EHU (2014-2021).

#AddysgIechydFydeang

# Cynhadledd Ieithoedd Lleiafrifol mewn Addysg Iechyd

Dydd Iau 15 Mehefin 2023
Prifysgol Caerdydd, Darlithfa Sir Stanley Thomas OBE, Canolfan Bywyd Myfyrwyr

## Cara Meredith (Seland Newydd)



Cafodd Cara Meredith ei geni a'i magu yng Nghymru; mae ei thad yn Gymro a'i mam yn Māori. Symudodd i Aotearoa (NZ) bron i 20 mlynedd yn ôl ac mae wedi bod yn byw yno ers hynny. Mae ganddi gefndir mewn nyrsio a bydwreigiaeth ac mae wedi bod yn gweithio ym maes iechyd Māori am y blynyddoedd diwethaf. Fel rhan o'i rôl bresennol, sefydlodd wasanaeth iechyd meddwl amenedigol sy'n darparu ymagweddau Māori/Cynhenid at les i rieni yn y cyfnod amenedigol, gan ganolbwyntio ar (a chynnig) ymagweddau diwylliannol a chlinigol at ofal. Mae dulliau diwylliannol yn cynnwys arferion cyffredin, archwilio hunaniaeth ddiwylliannol a chysylltiad â diwylliant ac iaith.

Fe'i magwyd yn siarad Cymraeg a Saesneg ac mae'n dysgu te reo Māori (yr iaith Māori). Oherwydd ei phrofiadau o fod yn ddwyieithog (a chael hunaniaeth ddeuddiwylliannol) mae'n ymwybodol iawn o'r tebygrwydd rhwng profiadau Cymraeg a Māori o golli iaith, trawma rhwng cenedlaethau a'r effaith ar iechyd meddwl a lles. Mae'n bwnc y mae hi'n angerddol iawn amdano!

Ar hyn o bryd mae hi'n cyflawni PhD yn yr adran Māori and Indigenous Health Innovation ym University of Otago. Mae ei hymchwil yn canolbwyntio ar archwilio safbwyntiau Māori a Chynhenid a dulliau o ymdrin ag iechyd meddwl amenedigol.

## Derith Rhisiart (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)



Mae Derith Rhisiart ar ei blwyddyn olaf yn astudio ei doethuriaeth ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Cwblhaodd MSc mewn Seicoleg Iechyd yn yr un Brifysgol cyn cychwyn ar y gwaith ymchwil presennol sef 'Rôl Defnydd Iaith Frodorol mewn Cyfweld Cymhellol (CC) ar gyfer Newid Ymddygiad'. Mae'r gwaith ymchwil wedi canolbwyntio ar archwilio safbwyntiau a phrofiadau Ymgynghorwyr Gofal Iechyd ac unigolion parthed ymgynghoriadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r maes yma yn faes hynod ddiddorol a chyffrous, ym marn Derith, ac mae'n sicr yn cynnal brwdfrydedd a'r ysgogiad i ddysgu mwy.

**#AddysgIechydFydeang**

# Cynhadledd Ieithoedd Lleiafrifol mewn Addysg Iechyd

Dydd Iau 15 Mehefin 2023
Prifysgol Caerdydd, Darlithfa Sir Stanley Thomas OBE, Canolfan Bywyd Myfyrwyr

## Lena Sjöberg, MD, D.Med.Sc., (University of Helsinki)



Mae Lena Sjöberg yn addysgu myfyrwyr meddygol israddedig; pynciau/meysydd: cyfathrebu a rhyngweithio rhwng meddyg a chlaf, gan gynnwys achosion efelychiadol gydag actorion proffesiynol. Ym University of Helsinki, mae hi'n ymwneud â chynllunio arholiadau mynediad cenedlaethol i'r rhaglen addysg feddygol ac mae'n aelod o dîm rheoli'r rhaglen.

Mae hi'n athrawes glinigol yn yr Department of General Practice and Primary Health Care ers 2009 ac mae'n Feddyg Teulu llawn amser ym mwrdeistref Sipoo, y Ffindir, 1991-2003 (ers 2003 ar sail dau ddiwrnod y mis).

## Carys Williams and Rhonwen Lewis (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)





Mae Dr Rhonwen Lewis a Carys Williams yn Therapyddion Iaith a Lleferydd ac yn ddarlithwyr ar y cwrs gradd BSc (Anrh) Therapi Iaith a Lleferydd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Llwyddiant nodweddiadol y cwrs yw bod holl fyfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg ar y cwrs yn ymgymryd â thraean o'u modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Golygai hyn bod myfyrwyr yn cael profiadau clinigol ac academaidd wrth baratoi am eu gyrfa. Yn ogystal, mae pwyslais ar baratoi pob myfyriwr i weithio mewn cyd-destun dwyieithog yng Nghymru trwy weithgareddau ar sail ymholiad sy'n grymuso'r graddedigion i gydnabod anghenion ieithyddol defnyddwyr gwasanaeth.

Mae Rhonwen yn arbenigo ym maes plant, gyda diddordeb penodol mewn dwyieithrwydd a datblygiad ffonolegol a Carys yn y maes dwyieithrwydd a chyflyrau caffaeledig cyfathrebu a llyncu mewn oedolion gyda chyflyrau niwrolegol.

#AddysgIechydFydeang